Cofnodion o Gyfarfod o Gyngor Llawn Cyngor Tref Llandeilo a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd y Cyngor, Heol Cilgant, Llandeilo am 7.30 p.m. ar ddydd Mercher, 26ain Hydref 2005

Presennol: Y Maer Cyng Colin Jenkins; Dirprwy Faer Hugh Towns; Cyng Charlotte Leadbeater; Cyng Roy Davies; Cyng Ros Bellamy; Cyng Pam Steane Price; Cyng Ieuan Gwyn; Mr. Christopher Plummer (Swyddog Ariannol); Mr. Des Davies (Swyddog Technegol); Mr. Roger Phillips (Clerc y Dref)

Yn Mynychu : Cynghorydd Sir Ieuan Jones

Ymddiheuriadau: Cyng Richard Wallace; Cyng Fran Murphy; Cyng Paul Faulkner .

Materion yr Heddlu : Dim

6623/ Hydref /05 Cofnodion Blaenorol

Cymeradwywyd ac arwyddwyd Cofnodion o'r Cyfarfod Llawn a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd y Cyngor ar ddydd Mercher 28ain Medi fel cofnod cywir, gan gynnwys y diwygiadau canlynol :-

Cofnod 6595 – Gan gynnwys talu'r anfonebau canlynol

(i) Mr Hugh Gwynne clirio llwybr troed £ 446.50 yn cynnwys TAW

(ii) Kingsbury Electrics, Goleuadau Nadolig £ 117.50 yn cynnwys TAW

Cynigiwyd gan y Cyng Richard Wallace ac eiliwyd gan y Cyng Ros Bellamy

Cynigiwyd gan y Cyng Ieuan Gwyn ac eiliwyd gan y Cyng Ros Bellamy

Darllenwyd a chymeradwywyd argymhellion yng nghofnodion o'r Pwyllgor Cynllunio a Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir ar ddydd Mercher 12fed Hydref. Cynigiwyd gan y Cyng. Pam Steane Price ac eiliwyd gan y Cyng Charlotte Leadbeater. Pawb o blaid.

Darllenwyd a chymeradwywyd Cofnodion o'r Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir ar ddydd Mercher 12fed Hydref. Cynigiwyd gan y Cyng Colin Jenkins ac eiliwyd gan y Cyng Pam Steane Price. Pawb o blaid.

6624 / Hydref / 05 Materion yn codi o gofnodion blaenorol

Parthed :- Hysbysfwrdd. (Cofnod 6596) Mae'r Cynghorydd Sir Ieuan Jones wedi ceisio ac wedi derbyn caniatâd oddi wrth CSC i osod hysbysfwrdd ar wal allanol llaw dde'r bloc toiledau wrth gefn y maes parcio. Gofynnwyd i'r Swyddog Technegol i gysylltu â saer i wneud y gwaith hwn. Cynigiwyd gan y Cyng Colin Jenkins ac eiliwyd gan y Cyng Roy Davies. Pawb o blaid.

6625 / Hydref / 05 Mater Cynllunio

Clerc y Dref Neuadd y Sir Stryd Caerfyrddin Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk
Town Clerk Shire Hall Carmarthen Street Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk

Parthed: addasu'r ystafelloedd arwerthu yn ddau dŷ yn 21, Heol Newydd – Cynlluniau diwygiedig.
Dim gwrthwynebiadau. Cynigiwyd gan y Cyng Ieuan Gwyn ac eiliwyd gan y Cyng Roy Davies. Pawb o blaid.

6626 / Hydref / 05 Materion Ariannol

1. Tendrau ar gyfer goleuadau Nadolig. Cynigiwyd gan y Cyng Ieuan Gwyn ac eiliwyd gan y Cyng Ros Bellamy i agor y tendrau yn ystod y cyfarfod. Pawb o blaid.
   Fel a ganlyn :-
a) Sams Electricals £4853.00 + TAW.
b) Davies Electrical £3900.00 + TAW
c) Wnaeth Rhys Williams wrthod gwneud tendr oherwydd pwysau gwaith
   Cynigiwyd gan y Cyng Hugh Towns ac eiliwyd gan y Cyng Ros Bellamy i'r cytundeb gael ei roi i Davies Electrical. Pawb o blaid.
2. Cymeradwyo talu Dewis am gyfieithu cofnodion misoedd Ebrill – Gorffennaf ar gost o £277.05. Cynigiwyd gan y Cyng Hugh Towns ac eiliwyd gan y Cyng Ieuan Gwyn. Pawb o blaid.
3. Cymeradwyo talu £155.00 + TAW (£172.) i Mr Hugh Gwynne am waith a chyflenwi deunyddiau i adeiladau stepiau fel mynedfa i mewn i ardd y Cyngor. Cynigiwyd gan y Cyng Hugh Towns ac eiliwyd gan y Cyng Pam Steane Price. Pawb o blaid.
4. Ad-dalu treuliau ysgrifenyddol i'r Clerc am £48.18. Cynigiwyd gan y Cyng Hugh Towns ac eiliwyd gan y Cyng Ieuan Gwyn. Pawb o blaid.
5. Penderfynwyd gofyn i'r Swyddog Technegol gadw cofnod o'r holl alwadau a wneir ar ran y Cyngor ac y bydd pob cais rhesymol am ad-daliad yn cael ei drin yn deg. Cynigiwyd gan y Cyng Charlotte Leadbeater ac eiliwyd gan y Cyng Roy Davies. Pawb o blaid.

6627 / Hydref / 05 Adroddiad Archwilio ar gyfer 2004-5

1. Cynigiodd y Cyng Hugh Towns y dylid gofyn i'r Archwiliwr Mewnol, Mr Lyn Llewellyn i annerch cyfarfod o'r Cyngor yn y dyfodol. Pawb o blaid.
2. Cytunwyd y dylid cymeradwyo talu, £140.00 i Mr. Llewellyn fel tâl am archwilio'r cyfrifon. Cynigiwyd gan y Cyng Hugh Towns ac eiliwyd gan y Cyng Ieuan Gwyn. Pawb o blaid.
3. Derbyniwyd y Cyfrifon o Dderbynebion ac Anfonebau ar gyfer y flwyddyn 2004-5. Cynigiwyd gan y Cyng Hugh Towns ac eiliwyd gan y Cyng Ieuan Gwyn. Pawb o blaid.
4. Cymeradwywyd yr Adroddiad o Aswiriannau Blynyddol i'w Harchwilio ar gyfer y flwyddyn 2004-5. Cynigiwyd gan y Cyng Hugh Towns ac eiliwyd gan y Cyng Roy Davies. Pawb o blaid.

Gohiriwyd Rheol Sefydlog Rhif 6 er mwyn caniatáu dod â busnes y Cyngor i derfyn.

6628 / Hydref / 05 Adroddiad y Maer

Rhoddodd y Maer, Cyng Colin Jenkins adroddiad o'r holl gyfarfodydd a digwydiadau wnaeth eu mynychu ar ran y Cyngor. Awgrymwyd y gellid rhoi hyn ar wefan y Cyngor.

Clerc y Dref Neuadd y Sir Stryd Caerfyrddin Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk
Town Clerk Shire Hall Carmarthen Street Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk

6629 / Hydref / 05 Arddangosfa Tân Gwyllt 2005-

Cytunwyd y byddai Cyng Hugh Towns a Cyng Colin Jenkins yn llanw'r ffurflenni yswiriant ar gyfer y digwyddiad. Pawb o blaid.

6630 / Hydref / 05 Goleuadau Nadolig 2005

Fe fydd y goleuadau yn cael eu cynnau ar ddydd Gwener, 25ain Tachwedd am 6.30pm.

6631 / Hydref / 05 Prosiect Llwybr Treftadaeth y Dref

Adroddodd y Cyng Ros Bellamy fod pwyllgor y prosiect yn sefyll am ganlyniad y cais am grant.

6632 / Hydref / 05 – Prosiect yr Ardd

Mynegodd y Cyng Ieuan Gwyn rhai pryderon mewn perthynas â gwaith cynnal a chadw'r ardd yn y dyfodol.
Nodwyd gan y Cyng Pam Steane Price fod yna ddau arolwg yn cael eu gwneud ar hyn o bryd. Sef:-

a) Arolwg Amgylcheddol gan Mr D. Morris
b) Arolwg llawn o'r safle gan Mr K. Murphy.

6633 / Hydref / 05 – Prosiect Neuadd y Sir

Fe fyddwn yn gwybod y dyddiad ar gyfer symud i mewn i'r swyddfa newydd yn Neuadd y Sir wedi i Cyng Colin Jenkins gwrdd â Mr Gwilym Hughes yn ystod yr wythnos bresennol.
Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â'r Ganolfan Addysg Gymunedol er mwyn rhoi rhybudd ynglŷn â symud o'r swyddfa dros dro, ac i gysylltu â BT er mwyn trefnu llinell ffôn newydd.
Adroddwyd gan y Cyng Ieuan Gwyn nad oes unrhyw gynnydd wedi'i wneud parthed arwyddo'r les newydd gyda Cambria. Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at yr Ymddiriedolaeth yn dweud fod y Cyngor yn hapus i barhau â'r trefniadau fel ag y maent hyd nes fod y les newydd yn cael ei arwyddo, pan edrychir ar unrhyw newidiadau. Cynigiwyd gan y Cyng Ieuan Gwyn ac eiliwyd gan y Cyng Ros Bellamy. Pawb o blaid.

6634 / Hydref / 05 Diweddariad ar y Wefan.

Cytunwyd i barhau gyda'r bwrdd negeseuon am y tri mis nesaf ar gost o £5.50. Cynigiwyd gan y Cyng Ros Bellamy ac eiliwyd gan y Cyng Pam Steane Price. Pawb o blaid.
Roedd y Cyng Ros Bellamy a Cyng Pam Steane Price wedi cwrdd â'r Clerc er mwyn ailddatgan y drefn mewn perthynas â rhoi'r diweddaraf ar y wefan yn fisol.

6635 / Hydref / 05 Gohebiaeth.

1. Anghenion hyfforddiant y Cyngor Tref. Mynegodd y Clerc y bydd yn mynychu'r cwrs hwn yng Nghaerfyrddin ar y 15fed Tachwedd am 5pm.

2. Gwasanaeth Cynghori Rhydaman a'r Cylch - Ymgorffori - Nodwyd.

Clerc y Dref Neuadd y Sir Stryd Caerfyrddin Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk
Town Clerk Shire Hall Carmarthen Street Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk

Daeth y cyfarfod i ben am 9.45pm.

Clerc y Dref Neuadd y Sir Stryd Caerfyrddin Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk
Town Clerk Shire Hall Carmarthen Street Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk